
# Diogelu eich Dogfennau



Y prif reswm bod safon dogfennau a lluniau ffotograffig yn gwaethygu yw safon wael y papur a ddefnyddiwyd. Mae'r mwyafrif o bapurau yn cynnwys asid sydd yn y diwedd yn staenio ac yn achosi'r papur fynd yn fregus. Mae dogfennau a lluniau ffotograffig yn cael eu niweidio gan yr un ffactorau: newidiadau mewn gwres a lleithder ac effaith golau ar yr eitem. Dylid cadw dogfennau a lluniau ffotograffig mewn blychau nad ydynt yn cynnwys asid. Ni ddylid eu cadw yn yr atig na'r seler, lle mae'r tymheredd â'r lleithder yn amrywio.

Mae yn well gwneud dim nac adfer y ddogfen eich hun, os nad ydych wedi eich hyfforddi i wneud y gwaith.

Dyma ychydig o awgrymiadau am sut i ymestyn bywyd eich dogfennau a lluniau ffotograffig.

## Dogfennau:

- Dylid cadw dogfennau yn wastad, heb eu plygu, lle bod hyn yn bosibl. Peidiwch â gorfodi dogfennau yn wastad, gall hyn wanhau y papur.
- Llungopïwch doriad papur newydd ar bapur nad yw yn cynnwys asid. Dylid ei gadw mewn blwch nad yw yn cynnwys asid.
- Cadwch ddogfennau oddi wrth olau haul na fflwrolau. Mae golau gweladwy yn niweidio pob dogfen. Un effaith gynnar o niwed golau yw bod yr inc yn pylu ac, yn y diwedd, yn diflannu. Os oes rhaid arddangos dogfen, fel tystysgrif, dylid ei gadw mewn ffrâm gyda gwydr sydd yn ffiltro golau uwchfioled.
- Os ydych am gopïo rhai dogfennau ar bapur safon uchel, papur sydd heb asid, peidiwch â'i cadw nesaf i dudalennau o bapur safon isel. Gwahanwch y ddau gyda thudalen o bapur heb asid ynddo.
- Gwnewch yn sicr bod eich dwylo yn lân cyn gafael mewn dogfennau. Os yw'r dogfennau yn bwysig defnyddiwch fenig.
- Peidiwch â defnyddio bandiau lastig oherwydd mae'r rwber yn caledu ac yn gadael gweddillion ar y papur.
- Peidiwch â defnyddio clipiau papurau metel i gadw dogfennau gyda'i gilydd oherwydd maent yn rhydu ac yn niweidio'r ddogfen.
- Peidiwch â defnyddio tâp gludiog. Mae hwn yn asidig iawn. Bydd tâp gludiog yn effeithiol am ddeng mlynedd a bydd yn gadael rhan o'r dudalen yn ludiog ac wedi eu staenio.
- Peidiwch â lamineiddio dogfen. Nid yw hyn yn ymestyn bywyd y ddogfen. Mae'n amhosib i gael gwared o blastig gludiog. Dewis gwell yw ddefnyddio i'w "encapsulation", sef rhoi dogfen rhwng dwy ddalen o polyester. Mae ymylon y ddwy ddalen o polyester yn cael eu selio.

## Lluniau:

- Dylid diogelu lluniau ffotograffig oddi wrth olau llachar. Os yw llun yn cael ei arddangos dylid ei gadw mewn ffrâm gyda gwydr sydd yn ffiltro golau uwchfioled.
- Dylid gafael yn ymylon y llun neu wisgo menig sydd ar gael o siopau camerâu.
- Cadwch negyddion a lluniau mewn amlenni nad ydynt yn cynnwys asid.
- Peidiwch â defnyddio albwm "magnetig", mae'r rhain yn asidig iawn.